**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Janet Kelly 01352 702301
janet.kelly@flintshire.gov.uk

At: Cyng Ted Palmer (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Dave Hughes, Tim Roberts a Ralph Small


**Aelodau Cyfetholedig:**
Steve Hibbert, Cllr. Andrew Rutherford, Cllr Nigel Williams a Cllr Julian Thompson-Hill

Dydd Iau, 3 Chwefror 2022

Annwyl Gynghorydd

**HYSBYSIAD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**PWYLLGOR CRONFA BENSIWN CLWYD**
**DYDD MERCHER, 9FED CHWEFROR, 2022 AM 9.30 AM**

Yn gywir



Gareth Owens
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd 'presenoldeb' wedi'i gyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau hynny o'r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am wahoddiad. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw'r rhain yn cael siarad ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

# R H A G L E N

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **YMDDIHEURIADAU** | |
| | **Pwrpas:** | I derbyn unrhyw ymddiheuriadau. |
| 2 | **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS GWRTHDARO O RAN CYSYLLTIAD)** | |
| | **Pwrpas:** | I dderbyn unrhyw Datganiadau a chynghori'r Aeolodau yn unol a hynny. |
| 3 | **COFNODION** (Tudalennau 5 - 14) | |
| | **Pwrpas:** | I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 10 Tachwedd 2021. |
| 4 | **DIWEDDARIAD AR YR ECONOMI A'R FARCHNAD AC ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD** (Tudalennau 15 - 52) | |
| | **Pwrpas:** | Darparu diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar yr economi a'r farchnad a pherfformiad y Gronfa a Rheolwyr y Gronfa. |
| 5 | **FFRAMWAITH RHEOLI RISG, LLWYBR HEDFAN A CHYLLID** (Tudalennau 53 - 70) | |
| | **Pwrpas:** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor ar y sefyllfa cyllido, a gweithrediad y fframwaith rheoli risg a llwybr hedfan gan gynnwys protocol dechrau dileu risg lefel cyllido. |
| 6 | **DATGANIAD STRATEGAETH FUDDSODDI ARFAETHEDIG** (Tudalennau 71 - 104) | |
| | **Pwrpas:** | Darparu Aelodau'r Pwyllgor gyda Datganiad Strategaeth Fuddsoddi diwygiedig er mwyn ei nodi, gwneud sylwadau a chymeradwyo yn dilyn ymgynghoriad gyda Chyflogwyr. |
| 7 | **CYFUNO ASEDAU A DIWEDDARIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** (Tudalennau 105 - 156) | |
| | **Pwrpas:** | Darparu Aelodau'r Pwyllgor gyda diweddariad ar Fuddsoddiadau Cyfuno Asedau yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyniadau gan Weithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru a Darparwr Datrysiad Rheoli Buddsoddiadau. |
| 8 | **DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU** (Tudalennau 157 - 190) | |
| | **Pwrpas:** | Darparu diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar faterion buddsoddi ac ariannol Cronfa Bensiynau Clwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | **CYFARFODYDD YN Y DYFODOL** | |
| | **Pwrpas:** | Yn y dyfodol bydd cyfarfodydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn cael eu cynnal am 9.30 am :-<br><br>Dydd Mercher, 16 Mawrth 2022<br>Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022 |
| 10 | **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** | |
| | Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio).<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys y telerau arfaethedig ar gyfer trafodiad masnachol ac mae budd y cyhoedd wrth beidio â datgelu'r wybodaeth yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth nes bod y trafodiad wedi'i gwblhau. | |
| 11 | **PROSIECTAU YNNI GLÂN YNG NGHYMRU - CYFRIF A REOLIR AR WAHÂN** (Tudalennau 191 - 212) | |
| | **Pwrpas:** | Darparu Aelodau'r Pwyllgor gydag adroddiad a chyflwyniad gan Capital Dynamics ar weithredu Cyfrif a Reolir Ar Wahân ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd i fuddsoddi mewn prosiectau ynni glân uniongyrchol yng Nghymru. |

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O

bryd i’w gilydd mae’r swyddog sy’n cynghori’r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu’n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo’r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy’n gwrthwynebu’r cynnig/cynigion, neu sy’n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio’r swyddogaeth ‘chat’. Bydd y swyddog sy’n cynghori’r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i’r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o’r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home